

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Gwersi Beiblaidd am y Nadolig

Cofiwch mai un llythrennau i ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH

Genesis 3: 13-20

Eseia 7: 14-16



ADNOD ALLWEDDOL

Eseia 7: 14

Gwers 1 Stori'r Nadolig – Yn y dechreuad

Mae i bob stori fan cychwyn! Nid ym Methlehem y cychwynnodd stori ryfeddol y Nadolig, ond yn union ar ddechrau hanes. Yng ngardd Eden y rhoddwyd yr addewid gyntaf gan Dduw fod Gwaredwr i ddod.

C Ad-drefnwch y llythrennau i gael gwybod pwy oedd y ddau berson oedd yn byw yn yr ardd, ac ysgrifennwch eu henwau yn y blychau.



2


C Llanwch y blychau yn y paragraff isod gyda'r geiriau coll, i gael gweld y digwyddiad enbyd o drist a ddigwyddodd yn yr ardd.

(Gwiriwch eich atebion drwy ddarllen Genesis 3: 1-6)

Duw ddoeth tentiodd edrychodd goeden anufuddhau
Un diwrnod y sarff (y diafol) Efa. Twyllodd hi gyda'i gelwydd a dywedodd nad
oedd wedi dweud y bydden nhw'n marw pe baen nhw'n bwyta o ffrwyth y
gwybodaeth da a drwg. ar y goeden a gwelodd ei bod yn hardd a'r ffrwythau'n dda i'w
bwyta ac yn abl i'w gwneud yn Penderfynodd i Dduw a bwytaodd y
ffrwyth. Rhoddodd rywffaint i Adda hefyd i'w fwyta.

6

C Beth ddywedodd Efa pan ofynnodd Duw iddi beth oedd hi wedi ei wneud?



1

Anufudd-dod Efa oedd y PECHOD CYNTAF!

C Darllenwch ac ysgrifennwch Rhufeiniaid 5: 12 i ganfod beth oedd canlyniadau trychinebus y pechod cyntaf hwn.


Cosbodd Duw y sarff, ond wrth Iddo wneud hynny, addawodd Ef y byddai Gwaredwr yn dod

2

ryw ddydd i dministrio'r diafol a'i waith drwg!

C Llanwch y bylchau isod gyda'r llythrennau a, e, i, o, u, w ac y i ganfod beth ddywedodd Duw wrth y sarff.

G_s_d_f_l_n_ _th rh_ng_t t_ _'r_r_g,
_ rh_ng d_h_d d_ _' h_d h_th_ _;
b_dd_f_n_s_g_d_b_n_d_,
_ th_th_ _'n_s_g'_s_dl_f.



4

Pan soniodd Duw wrth y sarff am "had" (plentyn neu "hiliogaeth") y wraig, a fyddai'n ysigo (cleisio) pen y sarff, roedd yn siarad am yr Arglwydd Iesu a'r fuddugoliaeth fawr a gâi Ef dros y diafol, pan fyddai'n marw ar y groes. Ar ddiwedd Genesis 3, anfonodd Duw Adda ac Efa allan o'r ardd a chawsant eu gwahanu oddi wrth yr Arglwydd. Dyna drist! Eto i gyd, mae hyn yn wir amdanom ni heddiw! Rydym ninnau hefyd wedi ein gwahanu oddi wrth Dduw oherwydd ein pechod! Anfonodd Duw Ei Fab i fod yn Waredwr i ni, er mwyn i ni gael maddeuant. Drwy ymddiried Ynddo Ef, cawn ddod yn rhan o deulu Duw. Drwy holl ddyddiau'r Hen Destament, roedd Duw yn dal i addo'r Gwaredwr Hwn. Cyhoeddodd y proffwyd Eiseia, er enghraifft, y byddai'r Gwaredwr hwn yn Un arbennig iawn.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol ac yna rhowch gylch o gwmpas Ei enw, sy'n golygu 'Duw gyda ni'.

2

C Ysgrifennwch Gwir neu Anwir wrth ymyl y canlynol:-

Yr Arglwydd Iesu yw Gwaredwr y byd.

Rydym ni, fel Adda ac Efa yn bechuriaid.

Bethlehem yw man cychwyn stori'r Nadolig.



3


DARLENWCH
 Mathew 1: 18-25

ADNOD ALLWEDDOL
 Mathew 1: 21

Gwers 2 Stori'r Nadolig – Negesydd Duw

Mae'r Nadolig yn adeg o ryfeddodau. Dyna eiliad arbennig yw honno pan fyddwch chi'n darganfod beth sydd yn y parsel mawr, anarferol 'na! Neu efallai y daw eich mam-gu (nain) a'ch tad-cu (taid) heibio'n ddirybudd!

Un tro, cafodd dyn o'r enw Joseff dipyn o syndod hefyd; yn wir cafodd DDWY sioc go annisgwyl! Yn gyntaf, canfu fod y ferch roedd e'n mynd i'w phriodi yn disgwyl babi. Doedd e ddim yn deall sut roedd hynny'n bosibl oherwydd doedden nhw ddim yn byw gyda'i gilydd!


C Pa adnod sy'n dweud wrthym iddo ystyried torri'r dyweddiad heb ddweud dim wrth neb?


Eto, hyd yn oed tra'r oedd e'n meddwl am hyn, cafodd sioc arall! Ymddangosodd angel, negesydd Duw, o'i flaen a dechrau siarad ag ef

Adnod

C Beth ddywedodd yr angel wrth Joseff? Rhowch neu groes wrth ymyl pob un o'r brawddegau canlynol i ddangos a yw'n gywir neu'n anghywir.

Mab Daniel oedd Joseff.

Beichiogodd Mair drwy nerth yr Ysbryd Glan.

Byddai Mair yn geni bachgen.

Rhaid galw'r plentyn yn Iesu.


C Edrychwch ar adnod 22 ac ysgrifennwch un frawddeg i esbonio pam fod hyn i gyd yn digwydd.

Dyna beth rhyfeddol fod addewid Duw, a roddwyd lawer canrif ynghynt gan Eseia, bellach wedi ei gwireddu! (Gweler Gwers 1, Eseia 7: 14)

C Ysgrifennwch y rhan honno o'r Adnod Allweddol sy'n dweud wrthym pam y daeth yr Arglydd Iesu i'r byd.

1

4

1

2

C Rhowch gylch o gwmpas ystyr cywir yr enw 'IMMANUEL'.

Mab Duw

Baban Sanctaidd

Duw gyda ni



Gadewch i ni fyth anghofio fod yr Un a alwyd yn 'Immanuel' yn fwy na dim ond bachgen bach. Ef oedd sanctaidd Fab Duw a ddaeth i lawr o'r Nefoedd i fod yn Waredwr i ni. Dyna pam fod Ei ddyfodiad i'r byd yn beth mor wyrthiol. Pe bai'r Arglwydd Iesu yn ddim mwy na mab Mair a Joseff ac nid yn Fab Duw, byddai wedi bod yn bechadur fel ni ac ni fyddai Ef fyth wedi gallu marw i'n hachub rhag ein pechodau. Roedd yr Arglwydd Iesu yn unigryw! Mair oedd Ei fam, ond Duw oedd Ei Dad!



C Beth ddigwyddodd wedi i negesydd Duw adael Joseff? Dim ond tair o'r brawddegau hyn sy'n wir.

Gosodwch nhw yn y drefn gywir, 1, 2, 3.

Deffrodd Joseff.

Galwodd Joseff y bachgen yn Iesu.

Dechreuodd Joseff gwestiynu Duw.

Syrthiodd Joseff i gysgu.

Ysgarodd Joseff Mair.

Priododd Joseff â Mair.



Doedd tasg Joseff ddim yn hawdd, ond fel Mair, roedd e'n ymddiried yn Nuw, a gadawodd bopeth yn Ei ddwylo Ef. Os ydym yn caru'r Arglwydd Iesu ac os ydym yn ddilynwyr Iddo, yna rhaid i ninnau hefyd ymddiried yn Nuw ac ufuddhau i'w Air.


Rhowch gynnig ar y CROESAIR hwn er mwyn dysgu prif ffeithiau'r wers unwaith eto.

Ar Draws

- 3. Beichiogodd Mair drwy nerth yr (dau air)
- 6. Enw'r wryf.
- 8. yr Arglwydd oedd negesydd Duw.

I Lawr

- 1. Cafodd Ei eni i achub Ei bobl rhag eu
- 2. Enw'r dyn a ufuddhaodd i orchymyn Duw.
- 4. Ystyr yr enw hwn yw 'Duw gyda ni'.
- 5. Dywedodd Duw wrtho am y wyrth hon mewn
- 7. Enw mab cyntaf-anedig y wryf.





DARLENWCH
Mathew 2: 1-12



ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 2: 11

Gwers 3 Stori'r Nadolig – Y Seren Arbennig




Roedd Ben a Beca wedi cyffroi'n lân un Dydd Nadolig. Ar ôl agor eu pentwr o anrhegion rhyfeddol, roedden nhw'n disgwyl i rai aelodau arbennig o'r teulu alw heibio. Roedd Wncwl Bob ac Anti Sian wedi dod yr holl ffordd o Awstralia ac roedden nhw'n mynd i aros gyda nhw tan y Flwyddyn Newydd.



Mae'r Nadolig yn adeg o ymweliadau gan y teulu ac ad-duniadau. Wrth ddarllen y Darlleniad o'r Beibl, dysgw'n fod y Nadolig cyntaf hefyd yn adeg o ymweliadau arbennig. I ddechrau, dyna chi'r bugeiliaid adawodd eu praidd gan ddod o hyd i'r Arglwydd Iesu mewn preseb. Yna, flwyddyn yn ddiweddarach o bosibl, daeth Doethion (Seryddion) o'r Dwyrain i ymweld ag Ef.


C Drwy lanw'r Grisiau Geiriau, byddwch yn dysgu am yr hyn a wnaeth y Doethion cyn iddyn nhw ddod o hyd i'r Baban 'newydd Ei eni'.

1. Gwelsant hon yn y Dwyrain.
2. Hwn oedd brenin Jwdea.
3. Dyma pam roedden nhw'n awyddus i ddod o hyd Iddo.
4. Cyraeddasant yma yn gyntaf.
5. Yr Un a anwyd ym Methlehem.
6. Y cwestiwn a ofynasant i'r brenin.
7. Daethant i weld Brenin yr



7

C O ba gyfeiriad y daeth y Doethion? Rhowch gylch o gwmpas y pwynt cywir ar y cwmpawd.



1

C Tanlinellwch y geiriau sy'n disgrifio orau ymateb y brenin a'r ddinas i'r cwestiwn a ofynnwyd gan y Doethion.

Hapus a bodlon.

Blin a chwerw.

Wedi'u siomi a'u cynhyrfu.



1

Yna anfonodd Herod am gymorth y Prif Offeiriaid a'r Ysgrifenyddion.

C Sut roedd y rhain yn gwybod y byddai'r Brenin 'newydd Ei eni' – y Crist – i'w ganfod ym Methlehem?

Roedd Herod yn poeni y byddai'n colli ei orsedd o bosibl, er na ddywedodd hynny wrth y Doethion. Yn hytrach, anogodd nhw i fynd i Fethlehem. Gofynnodd iddynt roi gwybod iddo pan fyddent wedi dod o hyd i'r 'Crist' er mwyn iddo yntau hefyd ymweld ag Ef!

Wrth i'r Doethion adael y brenin, gwelsant y seren unwaith eto.

C Yn eich geiriau eich hun, esboniwch beth wnaeth y seren arbennig honno.


Lliwiwch hanner y cylch sydd wrth ymyl yr ateb cywir.

Pan welsant y seren, roeddent yn llawenhau roeddent yn drist.

Yna, aethant i'r ardd i mewn i'r tŷ.

Gwelsant y plentyn baban bach. Roedd Ef gyda Mair Joseff.

Syrthiasant i lawr a dechrau canu Iddo Ei addoli.



C Darllenwch yr Adnod Allweddol i ganfod pa drysorau roddodd y Doethion i'r Arglwydd Iesu.

C Ysgrifennwch Do neu Naddo wrth ymyl y brawddegau canlynol:-

Rhybuddiwyd nhw gan Dduw mewn breuddwyd i beidio â mynd nôl at Herod.

Dywedwyd wrthyn nhw am ddychweld at Herod ar frys.

Aethant adref ar hyd ffordd arall.

Unwaith eto, cawn weld fod y Plentyn bach hwn yn Rhywun arbennig iawn! Câi Ei addoli a'i gydnabod yn Frenin yr Iddewon. Cyhoeddodd Angylion mai Ef oedd Crist yr Arglwydd, Gwaredwr y byd a Mab Sanctaidd Duw ei Hun. Arhoswch am funud a gofynnwch i chi eich hun, "Ydw i wir yn gwybod pwy yw Ef, ac os yw'r holl bethau rhyfeddol hyn amdano yn wir, beth sy'n rhaid i fi ei wneud?" Os na wnaethoch hynny eisoes, ymddiriedwch Ynddo nawr fel eich Arglwydd a'ch Gwaredwr!



DARLENWCH
Mathew 2: 13-23



**ADNOD
ALLWEDDOL**
I Ioan 3: 8

Gwers 4 Stori'r Nadolig – Dihangfa Min Nos!

Fyddwch chi'n cael hunllef weithiau? Dyna falch fyddwn ni fod y cyfan drosodd wedi i ni ddeffro! Pan siaradodd Duw â Joseff yr eildro, mae'n siŵr iddo ddyuno mai dim ond hen freuddwyd gas oedd y cyfan. Ond roedd yn waeth na hynny, oherwydd roedd Duw yn ei rybuddio bod helynt yn ei aros!


C Cyfatebwch ddwy hanner bob brawddeg drwy ysgrifennu'r rhif cywir yn y blwch gwag.

- | | | | |
|----------|----------------------------------|----------------------|---------------------------------------------------|
| 1 | Ymddangosodd yr angel i Joseff | <input type="text"/> | hyd nes y dywedai'r Arglwydd wrtho am ddychwelyd. |
| 2 | Dywedwyd wrth Joseff am ffoi | <input type="text"/> | roedd Herod yn ceisio lladd Iesu. |
| 3 | Roedd Joseff i fynd â | <input type="text"/> | i'r Aifft. |
| 4 | Roedd Joseff i fynd yno oherwydd | <input type="text"/> | Mair ac Iesu gydag e. |
| 5 | Roedd Joseff i aros yno | <input type="text"/> | wedi i'r Doethion ddychwelyd adref. |

5

Byddai'r ddihangfa hon gyda'r nos a'r daith ddiweddarach yn ôl i Israel yn cyflawni proffwydoliaeth arall a roddwyd gannoedd o flynyddoedd ynghynt.

Ysgrifennwch eiriau'r proffwyd. (Gweler adnod 15)



1

Atebwch y cwestiynau ac yna rhowch gylch o gwmpas yr atebion ar y CHWILAIR. Maent wedi eu cuddio tuag ymlaen, yn ôl, i fyny, i lawr ac yn groeslinol.

1. Pwy oedd wedi digio wrth y Doethion?
.....
2. Ble'r oedd y bechgyn bach yn byw?
.....
3. Faint oedd oed rhai ohonynt?
.....
4. Pa lyfr o'r Hen Destament sy'n dilyn Eisea ac sy'n cael ei enwi yn adnod 17?
.....
5. Beth ddywedodd y proffwyd fyddai i'w glywed?
6. Beth ddefnyddiodd Duw i rybuddio Joseff?

➔	R	O	E	Dd	H	E	R	B
B	E	Th	L	E	H	E	M	R
H	O	D	A	M	L	A	Dd	E
I	E	E	S	Y	U	Y	B	U
R	E	R	N	W	Y	L	O	Dd
I	N	N	O	D	E	W	Y	W
Dd	A	N	E	D	D	I	G	Y
J	E	R	E	M	E	I	A	D

6

C Dilynwch y saeth ar y CHWILAIR, a defnyddiwch y llythrennau sydd ar ôl i ganfod beth roedd Herod am ei wneud pan roddodd ei orchmynion erchyll!

1

Roedd y weithred greulon hon yn rhan o gynllwyn erchyll y diafol i ddinistrio'r Arglwydd Iesu. Yn wir, drwy gydol bywyd yr Arglwydd Iesu, bu'r diafol yn ymosod yn barhaus Arno, ac yn ceisio Ei rwystro rhag gwneud ewyllys Duw. Pam y gwnaeth y diafol hyn? Drwy Ei farwolaeth iawnol ar y Groes, roedd yr Arglwydd Iesu yn mynd i drechu'r Un Drwg. Ydych chi'n cofio addewid Duw yng Ngardd Eden? Edrychwch eto ar Wers I a Genesis 3:15. Diolch byth, cadwodd Duw yr Arglwydd Iesu yn ddiogel yn yr Aifft, yng ngofal Mair a Joseff.

C Atebwch y cwestiynau canlynol yn y Nodiadur.

Nodiadau

Pryd y llefarodd Duw eto wrth Joseff mewn breuddwyd? (2: 19)

.....

I ble'r oedd e i fynd â'r Plentyn bach? (2: 20)

.....

Pam nad oedd Joseff am ddychwelyd i Jwdea? (2: 22)

.....

I ble'r aeth e yn lle hynny? (2: 23)

.....

4

C Ysgrifennwch FRAWDDEG OLAF yr Adnod Allweddol. Yna, rhowch gylch o gwmpas ENW'R UN oedd wrth wraidd cynllwyn creulon Herod ac a gafodd ei drechu pan fu farw'r Arglwydd Iesu ar groes Calfaria.

.....

.....

.....

3

Gwelwn felly fod STORI'r NADOLIG yn llawer mwy na dim ond preseb ym Methlehem! Mae'n stori hyfryd sy'n cynnwys cymysgedd o lawenydd a thristwch. Po fwyaf yr ystyriwn hyn, mwyaf yn y byd y down i sylweddoli na ddigwyddodd dim ar ddamwain. Cafodd y cyfan ei drefnu a'i weithredu'n ofalus gan Dduw, yn union fel yr addawodd Ef!

Nadolig Llawen Iawn i Chi!

**“Ganwyd i CHI heddiw ... Waredwr,
yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.” Luc 2: 11.**

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

.....

.....

.....

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts. Cyfres llawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120